Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

D**440**

# Sut mae gwneud cais i chwilio am ddyfarniad absoliwt neu orchymyn terfynol?

## Sut mae gwneud cais am chwiliad

Mae dwy ffordd i wneud chwiliad am ddyfarniad absoliwt neu orchymyn terfynol. Os ydych yn gwybod enw'r llys gallwch gysylltu â'r llys yn uniongyrchol neu os nad ydych yn gwybod lle ddigwyddodd yr ysgariad, gallwch gysylltu â'r Llys Teulu Canolog.

## Os ydych yn gwybod lle ddigwyddodd yr ysgariad, diddymiad neu ddirymiad

Os ydych yn gwybod lle ddigwyddodd yr ysgariad, diddymiad neu ddirymiad, ysgrifennwch lythyr i'r llys neu anfonwch e-bost gyda'ch enw, cyfeiriad a rhif eich achos (os yw'n hysbys) a'r dyddiad rydych yn credu gafodd y dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol ei gyhoeddi (os yw'n hysbys).

**Os nad ydych yn gwybod beth yw rhif yr achos,** bydd y llys yn chwilio cofnodion o'r 5 mlynedd cyn ac ar ôl y dyddiad yr ydych yn credu bod y dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol wedi cael ei wneud.

**Os nad ydych yn gwybod y dyddiad,** bydd y llys yn chwilio drwy'r cofnodion am y 10 mlynedd diwethaf.

Gwnewch yn siŵr bod yr enwau wedi'u sillafu'n gywir i osgoi chwiliad aflwyddiannus. Os yw cyfreithiwr yn gwneud cais ar eich rhan, dylech gynnwys eu henw a'u cyfeiriad.

Ewch i www.gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys i gael manylion cyswllt y llys.

## Beth fydd y llys yn anfon ataf?

Bydd y llys yn anfon copi o'r dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol atoch drwy'r post.

**Ffi gyda rhif achos:** £11

**Ffi heb rif achos:** £45 am bod 10 mlynedd o gofnodion yn cael eu chwilio (hyd yn oed os ydych yn gwybod yr union ddyddiad).


© Hawlfraint y Goron 2025

## Os nad ydych yn gwybod lle cynhaliwyd yr ysgariad, diddymiad neu ddirymiad

Gallwch ofyn i'r Llys Teulu Canolog chwilio drwy'r Mynegai Canolog Dyfarniadau Absoliwt ar gyfer y dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol.

Rhaid i chi lenwi ffurflen **D440.**

Gallwch un ai llenwi'r ffurflen atodedig neu ewch ar-lein i www.gov.uk/hmcts/request-decree-absolute

**Y ffi ar gyfer chwilio'r Mynegai Canolog yw £65 ar gyfer pob cyfnod o 10 mlynedd sy'n cael ei chwilio.**

## Beth fydd y Llys Teulu Canolog yn anfon ataf?

Byddwch yn cael tystysgrif o'r chwiliad a chopi o'r dyfarniad absoliwt neu'r gorchymyn terfynol, fel arfer o fewn 45 diwrnod ar ôl i'r llys gael eich taliad.

Os oes unrhyw beth o'i le gyda'ch cais, bydd yn cael ei ddychwelyd atoch gan nodi'r rheswm pam mae wedi cael ei ddychwelyd.

Os nad oes cofnod fod dyfarniad wedi'i roi, cewch dystysgrif yn nodi na ddaethpwyd o hyd i gofnod.

## Sut ydw i'n talu'r ffi?

### Talu â cherdyn credyd neu gerdyn debyd

Os ydych wedi gofyn i'r llys eich ffonio i wneud taliad gyda cherdyn credyd neu ddebyd, bydd y llys yn eich ffonio i gymryd eich taliad.

Cofiwch gynnwys eich rhif ffôn o fewn eich cais a nodi eich bod eisiau talu gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd.

### Talu trwy siec neu archeb bost

Gwnewch y siec neu'r archeb bost yn daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF / HM Courts & Tribunals Service' a'i hanfon gyda'ch ffurflen. Efallai na chewch gopi o'ch dyfarniad absoliwt neu orchymyn terfynol nes bod y siec wedi clirio.

# D440 – Cais am chwiliad am ddyfarniad absoliwt ysgariad neu orchymyn terfynol yn y Llys Teulu Canolog Rheol 7.36 Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010

Gwnewch yn siŵr bod enwau'r partïon wedi'u sillafu'n gywir. Gall sillafiad anghywir arwain at chwiliad aflwyddiannus. Os oes gennych gyfreithiwr yn gwneud cais ar eich rhan, nodwch enw a chyfeiriad eich cyfreithiwr.

**I'n helpu i wneud y chwiliad, atebwch hynny y gallwch o'r cwestiynau isod.**

**1.** Enw llawn y ceisydd (yr unigolyn a gychwynnodd yr achos)

**2.** Enw llawn yr atebydd (yr unigolyn wnaeth ymateb i'r achos)

**3.** Enw llawn y cyd-atebydd (os oes un) ac unrhyw un arall a enwir yn yr ysgariad

**4.** Dyddiad y briodas

**5.** Dyddiad gwahanu

**6.** Dyddiad neu flwyddyn ffeilio'r ddeiseb

**7.** Y llys lle ffeiliwyd y ddeiseb

**8.** Rhif yr Achos (os yw'n hysbys)

**9.** Y llys lle cyhoeddwyd y dyfarniad

**10.** Dyddiad neu flwyddyn cyhoeddi'r dyfarniad nisi

**11.** Y dyddiad neu'r flwyddyn pan wnaed y dyfarniad nisi yn absoliwt

---

Rwy'n gwneud cais am chwiliad ar gyfer y dyfarniad absoliwt a wnaed rhwng y flwyddyn o ____ a ____ ac hoffwn dalu fy ffi gyda

- ☐ cherdyn credyd/debyd, ffoniwch fi ar y rhif ffôn hwn, sef ____ i gael fy manylion talu
- ☐ siec/archeb bost sy'n daladwy i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF / HM Courts & Tribunals Service', yr wyf yn amgáu gyda'r ffurflen hon

Eich enw (neu enw a chyfeirnod y cwmni)

Cyfeiriad (y ceisydd neu gyfreithiwr sy'n gwneud cais ar ran y ceisydd)

Cod Post

Rhif ffôn cyswllt
(efallai y bydd angen i ni gadarnhau'r manylion)

Cyfreithwyr ar ran (os yw'n berthnasol)

---

**Dychwelwch y ffurflen hon ar ôl ei llenwi, ynghyd â'r ffi briodol, i:**
**Post:** Llys Teulu Canolog, Decree Absolute Search Section, First Avenue House, 42 – 49 High Holborn, Llundain WC1V 6NP
**E-bost:** Bse.decreeabsolute@justice.gov.uk


© Hawlfraint y Goron 2025